# Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn Sir y Fflint

## Helpu pobl i fyw'n dda



Mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn helpu pobl i gael y gefnogaeth maent ei angen i fyw bywydau diogel a llawn.



Rydym yn cefnogi:



- Pobl hŷn.



- Oedolion anabl.



- Pobl ag anableddau dysgu.



- Pobl ag anghenion iechyd meddwl.



- Gofalwyr.



- Pobl a all fod mewn risg o niwed.



Rydym yn helpu pobl i wneud y pethau sy’n bwysig iddyn nhw ac i aros mor annibynnol â phosibl.

---

## Sut ydym ni’n penderfynu pwy sy’n cael cefnogaeth



Gall unrhyw un gysylltu â ni i gael gwybodaeth a chyngor.



Pan fydd rhywun angen cymorth, rydym yn cyflawni asesiad.



Mae rheolau cenedlaethol o ran pwy all dderbyn cymorth a ariennir gan y Cyngor. Mae’r rheolau hyn yr un fath ar draws Cymru.

Gall rhai pobl gael cefnogaeth gan:



- Deulu.



- Ffrindiau.



- Grwpiau cymunedol.



- Elusennau.

---

## Mae mwy o bobl yn gofyn am gymorth



Mae mwy o bobl yn Sir y Fflint yn byw yn hirach.



Mae mwy o bobl yn byw gyda chyflyrau iechyd megis dementia.



Golyga hyn bod mwy o bobl angen cymorth gyda bywyd bob dydd.



Mae mwy o bobl yn gofyn am:



- Gofal yn y cartref



- Gofal mewn cartref gofal



- Cymorth Dementia.

- Cymorth ar ôl gadael yr ysbyty.
- Cymorth i ofalwyr.

---

## Cefnogi gofalwyr

Mae gofalwyr yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl.

Gofalwr yw rhywun sy'n gofalu am aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog.

Mae oddeutu 18,000 o bobl yn Sir y Fflint yn ofalwyr di-dâl.

Rydym ni’n darparu:

- Mae gofalwyr yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl.
- Gofalwr yw rhywun sy'n gofalu am aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog.

- Mae oddeutu 18,000 o bobl yn Sir y Fflint yn ofalwyr di-dâl.
- Rydym ni’n darparu:

---

## Beth sy'n mynd yn dda?

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau ar gyfer pobl leol.

Rydym wedi adeiladu cartref gofal newydd o’r enw Tŷ Croes Atti.

Rydym wedi adeiladu Coed-y-Ddraig sy’n darparu cyfleoedd a chefnogaeth i oedolion gydag:

- Anableddau dysgu.
- Awtistiaeth.
- Anghenion iechyd meddwl.

Rydym hefyd yn helpu mwy o bobl i aros yn actif, yn gysylltiedig ac yn rhan o’u cymunedau.

Daeth arolygon diweddar i’r casgliad bod gwasanaethau Sir y Fflint yn darparu gofal a chymorth o ansawdd da.

---

## Edrych i'r dyfodol



Gwyddwn bydd mwy o bobl angen cymorth yn y dyfodol.

Byddwn yn parhau i:



- Helpu pobl i aros yn annibynnol.



- Cefnogi pobl ar ôl yr ysbyty.



- Cefnogi gofalwyr.



- Darparu cymorth cynnar.



- Datblygu gwasanaethau lleol.



- Gweithio gyda gwasanaethau iechyd a grwpiau cymunedol.



- Defnyddio arian cyhoeddus mewn modd cyfrifol.

## Ein Haddewid



Mae gan Sir y Fflint hanes cryf o gefnogi pobl leol.



Byddwn yn parhau i gefnogi:



Pobl hŷn.



Oedolion anabl.



Gofalwyr.



Pobl sydd angen gofal a chymorth.



Rydym wedi ymrwymo i wella gwasanaethau, cefnogi cymunedau a helpu pobl i fyw bywydau gorau posibl.